**Gweinyddwyr Bwyd a Diod**
**Ymunwch â Tîm Yr Harbourmaster, Aberaeron**

**Amdanom ni:**
Mae'r Harbourmaster yn westy bwtîc bach wedi'i leoli yn nhref harbwr swynol Aberaeron, ar arfordir gorllewinol Cymru. Rydym yn cynnig profiad unigryw, agos-atoch ac wedi'i bersonoli, gan adlewyrchu cymeriad lleol, dyluniad chwaethus ac awyrgylch steilus. Ein nod yw darparu arhosiad arbennig a nodedig sy'n adlewyrchu'r ardal leol ac yn diwallu anghenion ein gwesteion, drwy roi sylw manwl i fanylion a chreu naws bwtîc. Rydym yn cynnig bwyd a diod o'r safon uchaf, sy'n cyfrannu at enw da ein gwesty hudolus ar lan harbwr Aberaeron.

**Y Rôl**:
Rydym yn chwilio am Weinydd Bwyd a Diod i ymuno â'n tîm mewn amgylchedd lletygarwch bywiog a phrysur. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol angerdd dros y diwydiant ac awydd i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid i safon uchel. Bydd y cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Cyfarch a gosod gwesteion i'w seddi, cymryd ac anfon archebion
- Gweinyddu bwyd a diodydd i westeion yn brydlon ac yn gwrtais
- Cefnogi gyda dyletswyddau bar fel y bo angen
- Delio â thaliadau biliau gwesteion
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau diogelwch bwyd
- Cynnal glendid a threfn yn yr ardaloedd bwyd a diod
- Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i westeion, drwy ateb ymholiadau a sicrhau profiad bwyta ac yfed pleserus

**Ymgeisydd Delfrydol:**

- Dim profiad? Dim problem! Darperir hyfforddiant llawn a hyfforddiant parhaus ar gyfer y rôl hon
- Parodrwydd i ddysgu ac addasu i wahanol dasgau o fewn y maes bwyd a diod
- Sgiliau cyfathrebu cryf gyda'r gallu i ryngweithio'n effeithiol â gwesteion ac aelodau'r tîm
- Mae'r gallu i siarad Cymraeg gyda'n cwsmeriaid yn ddymunol ar gyfer y swydd hon
- Angen bod yn chwaraewr tîm gyda agwedd bositif

**Math o swydd**: Llawn Amser / Rhan-amser

**Cyflog:** Cyflog cystadleuol ac oriau gwaith hyblyg

**Rydym yn cynnig:**

- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu llawn (NVQ a WSET a'r gael)
- Pensiwn cwmni
- Tîm cefnogol, croesawgar mewn gwesty bywiog a phoblogaidd

Os oes gennych angerdd am y diwydiant lletygarwch ac yn mwynhau gweithio mewn amgylchedd prysur ac egnïol, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

**Gwnewch gais nawr a dewch yn aelod gwerthfawr o Dîm yr Harbourmaster!**

**Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol at:- hr@flatrockgroup.co.uk neu ffoniwch 01545570755 i drefnu sgwrs anffurfiol gyda'r Rheolwr Cyffredinol.**